DYDD GWENER Y GROGLITH

ESEIA 52:12–53:12; SALM 22; HEBREAID 10:16-25 [HEBREAID 4:14-16; 5:7-9]; IOAN 18:1–19:42

● **Gweddi agoriadol**

Diwrnod o emosiynau cymysg yw hwn, Arglwydd.
Rydym yn ymwybodol o'r boen a ddioddefodd Iesu
o achos y milwyr
ac ar y groes.
Meddyliwn am y bobl
a groesawodd Iesu i Jerwsalem,
ac wedyn gweiddi am ei ladd.
Cofiwn Pedr yn gwadu
a'r disgyblion yn gwasgaru mewn ofn.
Ac eto gwyddom
fod i'r broses hon ei lle
yng ngwaith iachawdwriaeth,
gwaith a ddechreuwyd gymaint ynghynt.
Cynorthwya ni i ddeall y llwybr cariad
a gerddodd Iesu
a'r rheswm iddo gyrraedd y groes.
Cynorthwya ni yn ein hymateb,
wrth i ni ddysgu beth yw ystyr
codi ein croes
a dilyn.

● Moliant

Hyn yw cariad:
i ti siarad geiriau cysur,
cerdded gyda'r aflan a'r digariad,
rhannu doethineb, bara a physgod,
dod â iechyd i fywydau pobl
a herio'r drefn.

Hyn yw cariad:
i ti siarad gair Duw,
cerdded y ffordd boenus at y groes,
rhannu dŵr bywiol a bara'r bywyd,
dod â iachawdwriaeth i'n byd
a marw er ein mwyn.

Hyn yw cariad:
hedyn ydyw
wedi'i hau yn y pridd,
sy'n egino,
yn blodeuo
ac yn gwasgaru ei bersawr
yn awel dyner dy Ysbryd.

Hyn yw cariad.

● **Cyffes**

Gŵr dioddefus oeddet,
yn gynefin â dolur,
yn cael dy garu a'th ddirmygu
i'r un graddau.
Rwyt yn deall dynoliaeth,
yn gwybod am ein gwendidau
ac yn dal i'n caru.

Pan fyddwn ni, fel Pedr,
yn dy wadu mewn gair neu weithred,
maddau i ni.
Pan fyddwn, fel Jwdas, yn cael ein denu
i ddilyn llwybr arall,
maddau i ni.
Pan fyddwn, fel y dyrfa honno,
yn gweiddi am dy groeshoelio,
maddau i ni.
Tyrd â ni at droed y groes
i sefyll yn ymyl yr un a ddywedodd,
wrth syllu yn dy lygad,
'Yn wir, Mab Duw oedd hwn!'

● Diolch

Dad grasol,
y cariad diamod,
y mae dy galon
yn gorlifo â maddeuant,
derbyn ein gweddi ddiolchgar.

Fab grasol,
y rhoi aberthol,
yr oedd dy gorff
wedi gwaedu er ein hiachawdwriaeth,
derbyn ein gweddi ddiolchgar.

Ysbryd grasol,
y llif tragwyddol,
y mae dy anadl
yn adfywio ein ffydd a'n henaid,
derbyn ein gweddi ddiolchgar.